# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-08-08: 4 Mehefin 2008

## Ymchwiliad i'r materion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru

### Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Achredu Cymwysterau a Sgiliau Gweithwyr

### MudolCyflwyniad

Rwyf i'n croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ar y pwnc hwn. Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn bennaf yw rhoi cydnabyddiaeth i gymwysterau a ddyfarnwyd y tu allan i'r DU, rwyf i'n cydnabod fod hon yn ystyriaeth bwysig sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru ac y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu ati.

Rhennir y papur hwn yn bedair adran: trosolwg cyffredinol; trefniadau achredu a fframweithiau cymwysterau; materion y Gymuned Ewropeaidd; NARIC.

### Trosolwg Cyffredinol

Mae'n bwysig i weithwyr mudol, cyflogwyr a defnyddwyr bod system effeithiol yn bodoli i reoleiddio a chydnabod cymwysterau a sgiliau a enillir y tu allan i'r DU. Mae sicrhau cydnabyddiaeth o'r fath yn aml yn angenrheidiol cyn bod gweithwyr mudol yn gallu dod o hyd i gyflogaeth addas. Fe wyddom o arolygon a gynhaliwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru bod cyfran eithaf uchel o ffoaduriaid yng Nghymru yn meddu ar gymwysterau proffesiynol neu gymwysterau eraill a phrofiad ar lefel uchel, ond eto mae llawer yn methu dod o hyd i gyflogaeth yng Nghymru sy'n gymesur â'r cymwysterau hynny. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae'n bwysig bod cyflogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yn cael eu sicrhau o ansawdd y cyfryw gymwysterau a phrofiad er mwyn gwarchod eu buddiannau. Y gwirionedd yw bod systemau addysg a hyfforddiant tramor yn gallu bod yn wahanol iawn i'r rheini a geir yng Nghymru a gall cymhwyster a ddyfarnwyd yno, er iddo ymddangos ar yr olwg gyntaf gyfwerth ag un a ddyfarnwyd yng Nghymru, mewn gwirionedd fod yn wahanol iawn, heb ddangos o reidrwydd fod gan yr unigolyn yr un lefel o gymhwysedd â rhywun a hyfforddwyd yng Nghymru. Er enghraifft, mewn rhai gwledydd mae dysgwyr yn dechrau ar raglenni gradd israddedig ar ôl 10 neu 11 o flynyddoedd o addysg yn unig, ond yn y DU fel arfer mae'n 12 neu 13 o flynyddoedd. Mae'n bosibl na fyddai gradd a ddyfernir mewn amgylchiadau o'r fath gyfwerth â gradd o'r DU. Mae sefyllfa'r rheini sydd â chymwysterau a ddyfarnwyd o fewn y Gymuned Ewropeaidd yn sylweddol wahanol i'r rheini sydd â chymwysterau a ddyfarnwyd mewn gwledydd eraill.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfranogi'n llawn mewn gweithgareddau ledled y DU i fynd i'r afael â'r materion hyn. Yn ogystal, mae'n gweithio gyda chyrff yng Nghymru, gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli ffoaduriaid, i helpu i wella'r sefyllfa yng Nghymru. Er enghraifft yn fuan byddwn yn dechrau gweithio ar baratoi cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth i ffoaduriaid yng Nghymru. Fel rhan o'r cynllun gweithredu ehangach ar gyfer gweithredu'r strategaeth Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, bydd APADGOS yn paratoi cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth ar gyfer ffoaduriaid yng Nghymru. Bydd meysydd unigol yn y strategaeth yn cael eu cyflwyno i gael eu cymeradwyo pan fydd rhagor o wybodaeth fanwl ynghyd â'r goblygiadau ariannol perthynol yn wybyddus. Bydd y cynnig yn cael ei ariannu o fewn gwaelodlin APADGOS drwy ail-flaenoriaethu cyllidebau cyfredol fel bo'r angen. Felly nid oes goblygiadau ariannol ehangach i Brif Grwp Gwariant PADGOS nac i Lywodraeth y Cynulliad.

### Trefniadau Achredu a Fframweithiau Cymwysterau

Mae cymwysterau allanol yn cael eu rheoleiddio'n statudol oherwydd bod gan y cyhoedd - dysgwyr, cyflogwyr a grwpiau cwsmer eraill - ddiddordeb mewn sicrhau argaeledd cymwysterau o ansawdd uchel sy'n ateb y gofyn, yn ennyn hyder y cyhoedd ac sy'n cael eu deall gan y rheini sy'n eu cymryd a'r rheini sy'n eu defnyddio. Hefyd mae angen sicrhau'r cyhoedd bod safonau cyson yn cael eu cynnal yn briodol ar draws y cyrff dyfarnu dros amser, bod y corff dyfarnu'n gymwys ac os oes rhywbeth yn mynd o'i le, bod hawl i apelio.

Mae'r cyfrifoldeb am reoleiddio cymwysterau allanol ar ysgwyddau'r 3 rheolydd cymwysterau: APADGOS yng Nghymru, yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA) yn Lloegr, a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon.

Mae tri fframwaith cymwysterau yn gweithredu yng Nghymru:

Y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF). Rhennir hwn ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae'n gosod y lefelau (mynediad i lefel 8) y gellir dyfarnu cymhwyster yn eu herbyn. Caiff ei reoleiddio gan y 3 rheolydd cymwysterau. Derbynnir cymwysterau i'r NQF drwy broses o achredu mewn dwy ran: cydnabyddiaeth gan y cyrff dyfarnu; ac achredu cymwysterau. Defnyddir meini prawf cyffredin ar gyfer yr holl gymwysterau, er enghraifft ymdrin â threfniadau asesu, a defnyddir meini prawf ychwanegol mewn perthynas â mathau penodol o gymwysterau e.e. TGAU, NVQ. Ar hyn o bryd mae 5,914 o gymwysterau achrededig ar y NQF. Ar hyn o bryd, mae'r QCA yn arwain gwaith, sy'n cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gogledd Iwerddon, i ddatblygu fframwaith newydd sef y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau, fydd yn ymgorffori'r cysyniad o gredyd sydd eisoes wedi'i arloesi yng Nghymru.

Y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ). Mae hwn yn berthnasol ar gyfer graddau, diplomâu, tystysgrifau a dyfarniadau academaidd eraill a ddyfernir gan brifysgolion a cholegau o dan eu pwerau dyfarnu graddau. Unwaith eto, mae hwn yn weithredol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac fe'i cydlynir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW). Dechreuodd weithredu yn 2003 ac mae'n gallu cynnwys yr holl gyflawniadau dysgu gan gynnwys cymwysterau prif lif, yng Nghymru. Mae'r CQFW yn cyfuno'r cysyniadau o gyfanswm y dysgu a gyflawnir (credyd) â'r gofynion a wneir ar y dysgwr gan y dysgu (lefel). Mae'n fframwaith cyffredin sy'n cynnwys nifer o bileri. Dau o'r pileri hyn yw'r NQF a'r CQFW. Hyd yma mae'r holl SAU yng Nghymru ac 14 o gyrff dyfarnu wedi'u dynodi ar gyfer trosglwyddo a dyfarnu credyd yn y CQFW. Mae'r gwaith yn parhau i ddod â rhagor o gyrff dyfarnu o fewn ei gwmpas.

### Materion y Gymuned Ewropeaidd

Elfen sylfaenol o gyfraith yr UE yw y dylai dinasyddion fod yn rhydd i'w sefydlu eu hunain a gweithio yn unrhyw le yn yr UE. I'r perwyl hwn, mae'r UE wedi cytuno ar gyfres o gyfarwyddebau sy'n ceisio helpu dinasyddion i drosglwyddo eu cymwysterau o un aelod-wladwriaeth i un arall. Yn 2005 mabwysiadodd gyfarwyddeb ddiwygiedig (2005/36/EC) sy'n llywodraethu cydnabyddiaeth o gymwysterau proffesiynol yn yr UE ac sydd â'r nod o egluro a chyfnerthu'r rheolau blaenorol a hwyluso gallu pobl broffesiynol gymwysedig i symud yn rhydd rhwng aelod-wladwriaethau. Daeth y Gyfarwyddeb i rym yn 2007 a Rheoliadau Llywodraeth y DU sy'n llywodraethu ei gweithrediad yn y DU. Mae'n berthnasol i ddinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (taleithiau'r UE ynghyd â Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir).

I grynhoi, ceir 3 prif elfen yn y Gyfarwyddeb:

Yr hyn a elwir y System Gyffredinol, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer y rheini sydd wedi cymhwyso i ymarfer proffesiwn rheoledig mewn un aelod-wladwriaeth ac sy'n dymuno i'w cymwysterau gael eu cydnabod mewn aelod-wladwriaeth arall er mwyn ymarfer yno. Rhaid cyflwyno ceisiadau unigol i'r awdurdodau cymwys yn yr aelod-wladwriaeth briodol. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu Gweinidogion Cymru. Gallant ganiatáu cydnabyddiaeth, ei wrthod neu ganiatáu yn ddarostyngedig i rai gofynion. Yn y bôn, darpariaeth wrth gefn yw'r System Gyffredinol ar gyfer proffesiynau nad ydynt yn dod o dan yr elfennau eraill;

System o gydnabyddiaeth awtomatig i gymwysterau a effeithir gan brofiad proffesiynol, yn cwmpasu gweithgareddau diwydiannol, crefft a masnachol. Yn ddarostyngedig i amodau datganedig, rhoddir cydnabyddiaeth awtomatig i brofiad o'r fath.

System o gydnabyddiaeth awtomatig i gymwysterau ar gyfer proffesiynau penodol. Mae hyn yn cwmpasu'r proffesiynau iechyd, milfeddygon a phenseiri.

Menter UE bwysig arall yw'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (EQF). Lansiwyd hwn yn 2006 ac mae'n dal i gael ei ddatblygu. Y dyddiad cyflwyno arfaethedig yw 2010 a'r dyddiad ar gyfer cyflwyno tystysgrifau sy'n cynnwys y lefel EQF yw 2012. Y cysyniad yw cael fframwaith cyffredinol i hwyluso cymharu cymwysterau a lefelau cymwysterau er mwyn hyrwyddo symudedd llafur a dysgu gydol oes. Gwahoddir aelod-wladwriaethau i berthynu lefelau eu cymwysterau cenedlaethol i'r fframwaith. Ymysg y datblygiadau diweddar mae cyswllt cryfach â dilysu dysgu heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol a'r manteision y gellir eu cyflwyno i grwpiau dan anfantais. Ar hyn o bryd mae 12 o grwpiau profi EQF ar waith ac mae Cymru a'r Alban yn rhan o un o'r rhain. Yn ddiweddar sefydlwyd Grwp Cydlynu EQF pedair gwlad y DU. Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd yn gyfrifol am fapio'r CQFW i'r EQF. Er na fydd y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd yn cael ei gyflwyno'n fuan iawn, mae'r costau presennol, yn bennaf, yn ymwneud â chynnal cyfarfodydd a mynychu Grwp Cydlynu'r DU. Mae cyllideb yr Is-Adran Cymwysterau a Dysgu eisoes wedi neilltuo cyllid ar gyfer hyn. Amcangyfrif o'r gost o fapio'r CQFW i'r EQF yw £10,000 a fydd yn cael ei dalu o gyllideb yr Is-Adran Cymwysterau a Dysgu. Bydd y gyllideb hon hefyd yn talu'r costau cysylltiedig eraill megis cyhoeddusrwydd/deunydd hyrwyddo. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau pellach i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn deillio o weithredu'r EQF ar hyn o bryd ond os bydd rhai'n codi byddant yn cael eu talu o gyllidebau cyfredol yr Is-Adran Cymwysterau a Dysgu o fewn Prif Grwp Gwariant PADGOS.

### Uk Naric

Mae hon yn un o rwydwaith o ganolfannau NARIC ar draws y byd a'u gwaith yw cyflenwi gwybodaeth a barn arbenigol ar sgiliau a chymwysterau galwedigaethol, academaidd a phroffesiynol o dros 180 o wledydd. Mae canolfan y DU yn gweithredu o dan gontract i'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau ac nid oes rôl uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. UK NARIC yw ble mae unigolion o dramor yn mynd os ydynt am gael asesu eu cymwysterau cyn iddynt ymuno â'r farchnad lafur yn y DU.

Prif wasanaeth NARIC yw darparu datganiadau cywerthedd ar gyfer cymwysterau o dramor. Gall y datganiadau hyn gwmpasu lefel y cymwysterau (o'u cymharu â'r fframweithiau cymwysterau yn y DU) a dilysrwydd y cymhwyster. Mae hefyd yn cynnig ystod o wasanaethau ymchwil a chynghori.

Gall cyrff megis prifysgolion, cyflogwyr ac adrannau'r llywodraeth danysgrifio i gronfeydd data NARIC ar gost o £850 a TAW bob blwyddyn. Gall unigolion wneud cais am Lythyr Cymaroldeb ar gost o £40 a TAW a gaiff ei gyflenwi o fewn 5 diwrnod gwaith wedi derbyn yr wybodaeth berthnasol.

Mae gwasanaeth NARIC felly yn ddefnyddiol iawn i weithwyr mudol sy'n dymuno gweithio yng Nghymru, yn arbennig y rheini o'r tu allan i'r UE.